

Cyngor Sir Caerfyrddin

Papur Cefndir Ardoll Seilwaith Cymunedol: Aseu Seilwaith

Medi 2016

Tudalen Gynnwys

1. Rhagymadrodd	3
2. Seilwaith	4
• Seilwaith Ffisegol	5
• Seilwaith Cymdeithasol a Chymuned	9
• Seilwaith Gwyrdd	13
3. Argymhellion – Rhestr Rheoliad 123 Ddrafft	15
Tabl 1: Cynlluniau Seilwaith Drafft	17

Rhagymadrodd

1.1 Er mwyn pennu cyfradd briodol ar gyfer yr Ardoll Seilwaith Cymunedol (ASC) mae angen i awdurdod codi tâl nodi'r seilwaith y mae'n dymuno'i ariannu o'r ASC a nodi'r gost a pha ffynonellau cyllid sydd ar gael i'w ddarparu.

1.2 Bydd darparu seilwaith yn ffactor allweddol o ran cyflawni'r gwaith datblygu sy'n angenrheidiol i ddiwallu anghenion y Sir dros oes Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Sir Gaerfyrddin.

1.3 Wrth bennu cyfradd yr ASC, mae'n ofynnol i'r Cyngor ddefnyddio 'tystiolaeth briodol sydd ar gael' i oleuo'r broses o baratoi Atodlen Codi Tâl ddrafft. Mae sail dystiolaeth y CDLI yn darparu sylfaen wybodaeth gan gynnwys y Papur Cefndir ar Seilwaith (Gorffennaf 2013) sy'n trafod yn benodol y seilwaith sy'n ofynnol yn Sir Gaerfyrddin er mwyn hwyluso'r broses o gyflawni'r CDLI. Cynhyrwyd y Papur hwn yn 2013 ac mae'n mynd i'r afael yn bennaf â'r seilwaith y mae ei angen i alluogi twf yn y Sir a galluogodd y Cyngor i ystyried mecanweithiau posib i ddarparu'r seilwaith sydd wedi ei nodi. Roedd y Papur yn bennaf yn canolbwyntio ar eitemau o seilwaith a gallai rhwystro datblygu, y rhai sydd eu hangen yn nodweddiadol cyn datblygu (e.e. seilwaith priffyrdd / cyfleustodau).

1.4 Ers mabwysiadu'r CDLI yn 2014, mae'r Cyngor wedi penderfynu bwrw ymlaen i ystyried addasrwydd fabwysiadu Ardoll Seilwaith Cymunedol (ASC) yn Sir Gaerfyrddin. Nid bwriad yr asesiad seilwaith yma yw i ailadrodd y gwaith sydd wedi'i wneud yn flaenorol i hysbysu lunio'r CDLI. Bwriad y papur diweddar hwn yw ychwanegu at yr wybodaeth hon er mwyn diweddarau yn ôl yr angen. Mae ei angen hefyd i fynd i'r afael ag ystod ehangach o fathau seilwaith, gan gynnwys y seilwaith sydd ei angen i gefnogi twf yn ogystal ag i hwyluso datblygiad. Mae'r Papur hefyd yn nodi'r costau seilwaith a ffynonellau posibl o gyllid er mwyn dangos bwlch cyllido cyfanredol ar draws Sir Gaerfyrddin, er mwyn cefnogi'r broses o gyflwyno'r ASC. Nid yw'r diweddariad yma yn ailadrodd cynnwys y Papur Cefndir y CDLI ar Seilwaith a dylai felly gael ei gyfeirio ato am fanylion pellach.

1.5 Mae'r Papur yn cael ei baratoi er mwyn cefnogi ymgynghoriad ar ddrafft Rhagarweiniol yr Atodlen Codi Tâl. Mae'n debygol yn ystod y broses o ystyried a chynyddu'r ardoll y bydd y cynlluniau seilwaith a nodir yn y papur hwn yn symud ymlaen a hefyd y mae'n bosib y bydd trefniadau ariannu yn newid. Ystyrir felly y bydd angen diweddariadau pellach i'r papur hwn yn ystod y broses hon ac o ganlyniad y bydd angen i newid yr argymhellion a wnaed yn y papur hwn. Dylid nodi hefyd y gallai newidiadau a wnaed i gynnwys y papur hwn cynnwys newidiadau i'r rhestr Rheoliad 123 ddrafft o brosiectau seilwaith.

Seilwaith

2.1 Mae Deddf Cynllunio 2008 yn darparu diffiniad eang o'r seilwaith y gellir ei ariannu â'r ardoll, gan gynnwys:

- Ffyrdd a chyfleusterau trafnidiaeth eraill;
- Amddiffynfeydd llifogydd;
- Ysgolion a chyfleusterau addysg eraill;
- Cyfleusterau meddygol;
- Mannau agored; a hefyd
- Cyfleusterau chwaraeon a hamdden

2.2 Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr ac mae'n darparu hyblygrwydd. Mae'n caniatáu i'r Awdurdod Codi Tâl bennu'r mathau o seilwaith a fydd yn cael eu hariannu trwy'r ASC a blaenoriaethu'r gwaith o gyflawni seilwaith. Ar hyn o bryd, ni ellir defnyddio'r ASC i ariannu tai fforddiadwy a bydd hyn yn parhau i gael ei ddarparu trwy rwymedigaethau cynllunio Adran 106. Ni ellir defnyddio'r ASC i gywiro diffygion presennol oni bai y byddai'r diffygion hynny wedi cael eu gwaethygu gan ddatblygiad newydd.

2.3 Nid oes gorfodaeth ar Awdurdodau Lleol i gyflwyno'r ASC a gallent ddewis parhau i ddibynnu ar rwymedigaethau cynllunio Adran 106 i ddarparu'r seilwaith angenrheidiol. Fodd bynnag, ers mis Ebrill 2015 mae'r gallu i gyfuno cyfraniadau o nifer o wahanol ddatblygiadau i ariannu darnau strategol o seilwaith wedi bod yn gyfyngedig ac mae'n hynod debygol na fydd nifer o gynlluniau drutach, mwy yn gallu cael eu cyflawni trwy rwymedigaethau cynllunio Adran 106 yn Sir Gaerfyrddin.

2.4 Mae'r asesiad hwn yn cynnwys pob math o seilwaith a fyddai'n cefnogi amcanion y CDLI ac mae'n cwmpasu tri chategori eang o ddatblygiad: corfforol; cymdeithasol a chymunedol; a, gwyrdd. Mae'r tabl o gynlluniau yn y papur hwn yn amlinellu'r cynlluniau sydd eu hangen i gefnogi cyflenwi'r CDLI. Mae'n cynnwys prosiectau bydd o bosib yn cael eu ariannu drwy CIL a rhai y rhagwelir y bydd neu y dylid ei ariannu drwy ddulliau eraill.

2.5 Mae'r Papur hwn yn rhoi trosolwg o'r mathau o seilwaith sydd angen i ddarparu datblygiad yn y dyfodol yn Sir Gaerfyrddin yn unol â'r CDLI mabwysiedig. Mae hefyd yn nodi prosiectau a allai o bosibl dod o fewn cylch gwaith CIL ac felly gellid eu hariannu yn gyfan gwbl neu'n rhannol drwy'r Ardoll. Bydd angen i rwymedigaethau cynllunio safle-benodol trwy Adran 106 weithio ochr yn ochr â'r ASC o hyd. Cydnabyddir bod nifer o ffynonellau cyllid eraill posibl i gyflawni seilwaith angenrheidiol. Bydd y cyfleoedd ar gyfer y ffyrddiau ariannu hyn yn dibynnu ar natur y seilwaith a gynigir, argaeledd cyllid a rhwymedigaethau deddfwriaethol a statudol. Mae'r Papur yn argymhell pa categorïau o seilwaith ddylai gael eu cynnwys yn Rhestr Rheoliad ASC 123. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, mae'n bosib bydd yr argymhellion hyn yn newid o ganlyniad i'r ymgynghoriad ac o ganlyniad i esblygiad a chynnydd y cynlluniau seilwaith a'r trefniadau ariannu.

Seilwaith Ffisegol

Gwelliannau Strategol i'r Priffyrdd

2.6 Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cydweithio â 3 awdurdod cyfagos sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Sir Penfro a Chyngor Dinas a Sir Abertawe i baratoi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol am y cyfnod 2010-2015. Ers hynny, mae'r cysyniad o Ddinas-ranbarth Bae Abertawe wedi esblygu ac erbyn hyn mae gan Fwrdd y Ddinas-ranbarth rôl yn datblygu blaenoriaethau trafndiaeth strategol ac yn blaenoriaethu cynlluniau trafndiaeth ar draws y rhanbarth. Mae'r Awdurdodau Lleol wedi paratoi Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol ac wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru (LIC) ddiwedd mis Ionawr 2015. Roedd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn sail i nodau, amcanion a pholisïau Trafnidiaeth y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) ac er bod y Cynllun Trafnidiaeth Lleol wedi disodli'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol cynharach mae'n dal yn hynod o berthnasol ac mae wedi darparu sylfaen gadarn i ddatblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol a'r CDLI arni. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y cyd yn rhoi inni fframwaith er mwyn gwella'r cysylltiadau i ranbarth y de-orllewin, oddi yno ac oddi mewn i'r rhanbarth yn y cyfnod 2015-2020 ac mae'n nodi ac yn blaenoriaethu cynlluniau yn Sir Gaerfyrddin sydd wedi'u bwriadu i wireddu'r nod hwn.

2.7 Mae system drafndiaeth integredig a chynaliadwy yn allweddol er mwyn rhoi Strategaeth y CDLI ar waith. Mae'r CDLI yn cydnabod pwysigrwydd parhaus y rhwydwaith priffyrdd ac mae cyfres o gynlluniau gwella priffyrdd wedi'u nodi ar draws y Sir ar lefel leol yn gefn i'r cynigion datblygu sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun.

2.8 Mae'r CDLI yn tynnu sylw at yr angen am gynlluniau gwella priffyrdd a fydd yn golygu bod modd datblygu safleoedd strategol allweddol yng Nghaerfyrddin a Cross Hands. Y cynlluniau dan sylw yw Ffordd Gyswllt Gorllewin Caerfyrddin a Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands. Hefyd, mae'r CDLI yn cydnabod yr angen am welliannau priffyrdd sy'n deillio o waith adfywio, megis Ffordd Ddosbarthu Rhydaman.

2.9 Bydd yr holl gynlluniau gwella priffyrdd hyn yn ddibynnol ar gyfraniadau Adran 106 wedi'u cronni, er mwyn iddynt gael eu gwireddu. Bydd felly'n briodol ystyried ariannu'r cynlluniau hyn yn gyfan gwbl neu'n rhannol drwy Ardoll Seilwaith Cymunedol (ASC).

2.10 Byddir yn parhau i ddefnyddio rhwymedigaethau Adran 106 lle mae rhaid darparu seilwaith trafndiaeth lleol er mwyn cael gwared â rhwystrau rhag bwrw ymlaen â datblygiadau a gynlluniwyd sy'n ymwneud â safle penodol.

Beicio a Cherdded

2.11 Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn rhoi gofyniad ar awdurdodau lleol i wella'n barhaus y cyfleusterau a'r llwybrau ar gyfer cerddwyr a beicwyr ac i baratoi mapiau, yn nodi'r llwybrau at eu defnydd nhw sy'n bodoli'n barod a'r rhai a allai gael eu datblygu yn y dyfodol. Mae'n ofynnol hefyd o dan y Ddeddf fod cynlluniau ffordd newydd yn ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr yn y cyfnod dylunio.

2.12 Mae gan feicio a cherdded ran sylweddol i'w chwarae i sicrhau trafndiaeth gynaliadwy ac i wireddu rhwydwaith trafndiaeth integredig, diogel a hygyrch yn Sir Gaerfyrddin, yn enwedig o ran gwella mynediad at gyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol, a hynny'n cynnwys mynediad at y rhwydwaith trafndiaeth ehangach.

2.13 Polisi'r Cyngor yw gwneud yn fawr o rôl beicio fel cyfrwng trafndiaeth. Mae hynny i'w gyflawni'n rhannol drwy barhau i ddatblygu rhwydwaith beicio hwylus, saff a deniadol drwy flaenoriaethu llwybrau, mynd ati i ddefnyddio archwiliad beicio ac adolygiad ar gynlluniau priffyrdd a datblygiadau, datblygu cynllun cynnal a chadw i holl lwybrau beicio'r Cyngor, a sicrhau bod beicio'n cael ei integreiddio'n llwyr â chludiant cyhoeddus.

2.14 Mae'r Cynllun Trafndiaeth Lleol yn darparu rhaglen o gynlluniau cerdded a beicio a bydd datblygu'r llwybrau strategol hyn yn ffactor allweddol o ran hyrwyddo cerdded a beicio fel ffyrdd amgen o deithio.

2.15 Mae Strategaeth Cerdded a Beicio 2016 yr Awdurdod yn cyfeirio at bwysigrwydd y rhwydwaith beicio a cherdded, ynghyd â'r gwaith datblygu sy'n ofynnol i hyrwyddo'r naill weithgaredd a'r llall, o'r lefel gyfranogi hyd at berfformiad elít. Bydd angen i'r rhwydwaith cerdded a beicio gysylltu safleoedd allweddol a chymunedau i hyrwyddo defnydd rheolaidd ac, yn y pen draw, i wella iechyd.

2.16 Mae nifer o safleoedd a chyfleusterau allweddol yn bodoli'n barod, er enghraifft Llwybr Arfordir Cymru, llwybrau beicio cenedlaethol Sustrans, Llwybr Arfordirol y Mileniwm a Chanolfan Beicio Mynydd Brechfa. Fodd bynnag, mae cynlluniau pellach yn cael eu cynllunio megis uwchraddio'r felodrom ym Mharc Caerfyrddin, llwybr cyswllt cerdded a beicio Dyffryn Tywi, a thrac beicio oddi ar y ffordd, ar gylch caeedig (y lleoliad i'w gadarnhau). Rhagwelir y bydd y cynlluniau beicio a cherdded a nodwyd yn y Cynllun Trafndiaeth Lleol a'r CDLI yn gymwys i gael arian ardoll.

Cludiant Cyhoeddus

2.17 Mae'r CDLI yn cydnabod y rôl arwyddocaol y gall cludiant cyhoeddus ei chwarae yn hyrwyddo teithio cynaliadwy ar draws y Sir. Ystyriwyd hygyrchedd ar lwybrau cludiant cyhoeddus wrth ddynodi'r hierarchaeth aneddiadau gan ei fod yn ffactor pwysig wrth greu manau a chymunedau cynaliadwy. Mae Strategaeth y CDLI yn ei thro yn ceisio hwyluso a chefnogi darpariaeth cludiant cyhoeddus y dyfodol ynghyd â chreu system drafnidiaeth integredig.

2.18 Mae'r CDLI, yn ogystal â'r Cynllun Trafndiaeth Lleol, yn cydnabod pwysigrwydd gwelliannau sy'n mynd rhagddynt i'r prif Goridorau Bysiau yn Sir Gaerfyrddin ac yn nodi hyn fel blaenoriaeth. Mae'r naill a'r llall hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd darparu cludiant cyhoeddus yn rhannau gwledig Sir Gaerfyrddin.

Datblygu Economaidd, Adfywio a Tir y Cyhoedd

2.19 Mae'r CDLI yn darparu ystod sylweddol a dewis o safleoedd i gwrdd ag anghenion amrywiaeth o gyflogwyr posibl. Mae Papur Cefndir y CDLI ar Seilwaith (2013) yn ymdrin â'r gofynion isadeiledd ffisegol megis priffyrdd a chyfleustodau sy'n ofynnol i gyflawni'r safleoedd hyn.

2.20 Mae rhagor o waith wedi cael ei wneud gan y Cyngor mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i ddatblygu strategaeth i hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth ar nifer o safleoedd a neilltuwyd ar gyfer cyflogaeth a datblygiadau defnydd cymysg. Mae'r Cynllun Adfywio Strategol ar gyfer Sir Gaerfyrddin 2015-2030 yn nodi cynlluniau adfywio i hwyluso datblygiad cyflogaeth a ddarperir yn ogystal â chynlluniau i gyflwyno tir y cyhoedd a gwelliannau canol y dref er mwyn denu buddsoddiad o'r tu allan. Mae rhagor o wybodaeth am y cynigion hyn yn cael ei hamlinellu yn Nhabl 1. Rhagwelir y bydd cynlluniau o'r fath yn gymwys i gael arian ASC.

Cyfleustodau

2.21 Mae Papur Cefndir y CDLI ar Seilwaith yn mynd i'r afael â'r angen am welliannau cyfleustodau ac uwchraddio i gefnogi cyflwyno'r CDLI. Gan fod dyletswydd ar gwmnïau cyfleustodau i ariannu a darparu seilwaith strategol i wasanaethu datblygiadau newydd ni fydd ariannu unrhyw welliannau i gyfleustodau yn ddibynnol ar gyllid ASC. Bydd angen i gysylltiadau lleol gael eu hariannu a darparu gan ddatblygwyr ar sail safle wrth safle.

Dŵr a Dŵr Gwastraff

2.22 Yn hanesyddol, mae'r system carthffosydd cyhoeddus yn Llanelli wedi bod yn system gyfun dŵr budr a dŵr wyneb ac, yn y blynyddoedd diwethaf, mae wedi cael ei gorlwytho'n hydrolegol. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cydweithio â Chyngor Dinas Abertawe, Dŵr Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i fynd i'r afael â'r mater hwn. Cynhyrchwyd Memorandwm Dealltwriaeth sy'n nodi trefn bartneriaeth i wella a diogelu ansawdd amgylcheddol Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio sy'n dyngedfennol i'r gwaith o adfywio'r ardal. Mae cofrestr 'gwella' yn cadw cofnod o'r holl achosion hynny lle caniatawyd i ddatblygiadau fynd rhagddynt ar y sail eu bod yn clirio dŵr wyneb i wneud iawn am hynny.

2.23 Y datblygwr sy'n gwneud y gwaith lliniaru gofynnol hwn. Fodd bynnag, o dan amgylchiadau eithriadol, lle nad oes dichon cyflawni hyn yn rhesymol, efallai y gofynnir i'r datblygwr ddarparu cyfraniad ariannol yn lle cyflawni'r mesurau lliniaru gofynnol. Yn ei dro caiff y cyfraniad ei wario ar sicrhau gwelliant yn rhywle arall. O ystyried bod y mesurau lliniaru hyn at ei gilydd yn cael eu cyflawni gan y datblygwr a, lle mae rhaid, bod modd sicrhau lliniaru penodol-i-safle drwy gytundebau Adran 106, yna mae'n annhebygol y byddai cyflawni'r prosiect hwn yn ddibynnol ar arian ASC.

2.24 Dŵr Cymru yw'r ymgymwr statudol sy'n darparu seilwaith cyflenwi dŵr a charthffosiaeth i Sir Caerfyrddin. Gelwir strategaethau Dŵr Cymru yn Gynlluniau Rheoli Asedau sy'n cwmpasu cyfnodau o 5 mlynedd. O safbwynt tynnu dŵr wyneb o ddalgylchoedd trin dŵr gwastraff Llanelli,

mae Dŵr Cymru yn buddsoddi drwy gynllun GlawLif i'r diben o dynnu gollyngiadau dŵr wyneb o weithfeydd trin, a'u lleihau. Mae'r arian ar gyfer y gwaith hwn wedi'i sicrhau a bydd yn cael ei ariannu gan Dŵr Cymru.

Amddiffynfeydd rhag Llifogydd a Draenio

2.25 Wrth gynhyrchu'r CDLI seiliwyd yr adran hon ar Nodyn Cyngor Technegol 15 Llywodraeth Cymru, Datblygu a Pherygl o Llifogydd, a'r Mapiau Cyngor Datblygu cysylltiol. Mabwysiadodd y Cyngor drefn weithredu ragofalus wrth ystyried safleoedd i'w cynnwys yn y CDLI a chyfeiriodd ddatblygu a fyddai'n agored iawn i niwed o ardaloedd lle gwyddom fod llifogydd yn bosibl. Lle bydd mesurau lliniaru llifogydd yn ofynnol mewn cysylltiad â datblygiad neilltuol, gellir sicrhau'r rhain drwy gytundebau Adran 106. Ni ddisgwylir i ddarpariaeth o'r fath gael ei hariannu drwy ASC. Fodd bynnag, cydnabyddir y gall fod yn ofynnol ar gyfer seilwaith amddiffyn rhag llifogydd strategol yn y dyfodol, a gallai hyn o bosibl fod yn gymwys i gael arian ASC.

2.26 Mae draenio dŵr wyneb yn rhan annatod o gynlluniau datblygu newydd ac, i'r perwyl hwn, mae darpariaeth uniongyrchol gan y datblygwr yn ofynnol. Lle mae angen gweithfeydd oddi ar y safle sy'n angenrheidiol o ganlyniad i ddatblygiad newydd, dylid sicrhau'r rhain drwy rwymedigaethau Ad106. Lle gallai fod angen gwneud gwelliannau strategol i'r rhwydwaith draenio o ganlyniad i effaith gronnydd nifer o ddatblygiadau, byddai'n briodol ystyried ariannu'r rhain drwy ASC.

Rheoli Gwastraff

2.27 Y Cyngor sy'n gyfrifol am waredu gwastraff trefol yn y Sir.

2.28 Gwastraff ailgylchadwy: Mae'r Cyngor yn rhedeg cynllun casglu o ddrws i ddrws ar gyfer y Sir. Mae yna hefyd bum canolfan ailgylchu gwastraff y cartref yn y Sir lle gall trigolion fynd â'u gwastraff ailgylchadwy a gwastraff arall.

2.29 Gwastraff gweddilliol (yr hyn nad yw'n cael ei ailgylchu na'i gompostio): Mae hwn yn mynd i safle tirlenwi Cwm Environmental yn Nant-y-Caws. Gwneir rhywfaint o ddiidoli rhagarweiniol ar wastraff ailgylchadwy ar Stad Ddiwydiannol Tre Ioan, ond mae hyn yn debygol o gael ei ddisodli gan ddiidoli mewn Cyfleuster Ailgylchu Deunyddiau newydd yn Nant-y-Caws (a gwblhawyd yn ddiweddar).

2.30 Tanlinellir pwysigrwydd safle Nant-y-caws yn y CDLI sy'n nodi'r safle fel cyfleuster gwastraff allweddol y Sir. Mae rhywfaint o ansicrwydd ynglŷn â dyfodol y safle fodd bynnag gan fod contract gwastraff Sir Gaerfyrddin yn dod i ben yn 2015 felly nid yw ymwneud CWM, ac yn wir y defnydd o'r safle yn y dyfodol, yn glir ar hyn o bryd.

2.31 O safbwynt caffael capasiti trin gwastraff, mae pecyn ariannu refeniw ar gael gan LIC ar hyn o bryd drwy'r Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy. Mae'r Gronfa Mynediad at Gyfalaf Rhanbarthol hefyd yn darparu cymorth i awdurdodau lleol o ran caffael seilwaith rheoli

gwastraff. Ar hyn o bryd mae awdurdodau lleol Cymru yn gweithio gyda'i gilydd mewn grwpiau i gaffael capasiti trin gwastraff gweddilliol.

2.32 O ran Rhanbarth De-orllewin Cymru, mae Cyngor Sir Penfro a Cheredigion wedi llofnodi contract, yn annibynnol ar raglen LIC, o dan fframwaith caffaeledig i anfon gwastraff i gyfleuster ynni-o-wastraff yn Sweden. Mae gweddill yr awdurdodau yn dal i benderfynu ar y ffordd orau ymlaen.

2.33 Gwastraff bwyd a gwastraff gwyrdd: Mae gwastraff bwyd a gwastraff gwyrdd Sir Gaerfyrddin hefyd yn mynd i Nant-y-Caws. Defnyddir compostio mewn-llestr, ac yna resgompostio, i ddadelfennu'r gwastraff bwyd a'r gwastraff gwyrdd gan gynhyrchu compost safonol.

2.34 Mae LIC wedi creu pecyn o gymorth ariannol cyfalaf a refeniw i awdurdodau lleol sy'n dymuno mabwysiadu technoleg Treulio Anaerobig. Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol yng Nghymru mewn grwpiau caffael cydweithredol i sicrhau capasiti trin gwastraff bwyd ar y cyd.

2.35 O ran Rhanbarth De-orllewin Cymru, mae Ceredigion a Phenfro wedi penderfynu ymuno mewn contract gyda Phowys, ac mae'u gwastraff bwyd a'u gwastraff gwyrdd yn cael ei gludo i gyfleuster yn Swydd Rhydychen.

2.36 Mae Abertawe a Phen-y-bont ar Ogwr hefyd yn bwriadu ymrwmo i gontract i ddelio â'u gwastraff bwyd a'u gwastraff gwyrdd mewn gwaith Treulio Anaerobig newydd yn Stormy Down, Pen-y-bont ar Ogwr. Gallai'r gwaith hwn gystadlu â chyfleuster Nant-y-Caws.

2.37 Gwastraff anadweithiol: Mae sawl cyfleuster trin gwastraff anadweithiol, ond nid oes defnydd da yn cael ei wneud ohonynt. Gall y cyfleuster yn Nafen, Llanelli ddelio ag 20,000 tonnall a'r un yng Nghapel Hendre 25,000 tonnall. Mae cyfleusterau pellach yn cael eu cynllunio.

2.38 Er bod nifer o ffynonellau ariannu eraill wedi'u nodi a allai helpu i ddarparu seilwaith gwastraff i Sir Gaerfyrddin, mae cryn lawer o ansicrwydd ynglŷn â'r gwelliannau seilwaith sy'n ofynnol a'r arian sydd ar gael. Mae'n bosibl felly y bydd gwelliannau rheoli gwastraff yn ddibynnol ar ASC yn y dyfodol.

Seilwaith Cymdeithasol a Chymunedol

Ysgolion

2.39 Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin ddyletswydd statudol fel Awdurdod Addysg Lleol i sicrhau bod nifer ac amrywiaeth ddigonol o leoedd ysgol ar gael ar lefel gynradd ac uwchradd i ddiwallu anghenion y Sir, yn ogystal â pharhau i ddiwallu anghenion y Sir wrth iddynt newid. Caiff addysg ei darparu yn Sir Gaerfyrddin drwy rwydwaith o 101 o ysgolion cynradd, 12 ysgol uwchradd a 2 ysgol arbennig.

2.40 Yn 2005, mabwysiadodd y Cyngor ei Rhaglen Moderneiddio Addysg. Nod y rhaglen hon yw sicrhau bod y rhwydwaith ysgolion sy'n gwasanaethu Sir Gaerfyrddin yn ateb gofynion y presennol a'r dyfodol, a'i fod yn gwneud hynny mewn ffordd strategol, sy'n effeithiol yn weithredol. Wrth wneud hynny, mae'r Rhaglen Moderneiddio Addysg yn nodi'r gofynion buddsoddi i'r dyfodol er mwyn sicrhau y bydd darpariaeth addas a digonol o leoedd ysgol yn Sir Gaerfyrddin ac mae'n nodi'i chynlluniau buddsoddi ar gyfer y dyfodol mewn ffordd strwythuredig, gydlynus.

2.41 Mae angen i ysgolion yn y Sir fod mewn cyflwr da ac yn addas i gyflwyno addysg yr 21ain ganrif. Mewn llawer o achosion, gellir moderneiddio, atgyweirio, ailwampio a / neu ehangu ysgolion presennol fel eu bod yn cwrdd â'r safonau sy'n ofynnol ar gyfer addysgu a dysgu cyfoes. Fodd bynnag, nid yw rhai o'r ysgolion yn Sir Gaerfyrddin mewn lleoliad strategol erbyn hyn neu nid ydynt yn addas ar gyfer addysgu a dysgu modern.

2.42 Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn codi Rhwymedigaeth Addysg ar bob datblygiad tai newydd sydd â 10 neu ragor o dai. Ar adegau, mae cyfraniadau datblygwyr unigol yn annigonol i ariannu darpariaeth ysgol ychwanegol felly caiff cyfraniadau o'r fath eu cronni hyd nes y gellir fforddio darparu cyfleusterau ychwanegol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i gynlluniau strategol mawr a fyddai fel arfer yn cael eu nodi yn y Rhaglen Moderneiddio Addysg.

2.43 Cafodd y Cyngor gymeradwyaeth yn 2010 i ddyraniad ariannu amlinellol o £86.7m ar gyfer cam cyntaf (Band A) Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif ar gyfradd ymyrraeth grant o 50%. Gan fod mecanweithiau ariannu amgen ar gael i gyflawni cynlluniau Band A does dim angen defnyddio arian ASC. Fodd bynnag, mae'r grŵp nesaf o gynlluniau i'w gweithredu yn cael eu nodi ym Mand B.

2.44 Rhagwelir y bydd y gost o gyflawni'r cynlluniau Band B oddeutu £150m. Mae hyn yn dangos bod diffyg ariannu sylweddol o ran cyflawni'r Rhaglen Moderneiddio Addysg. Nid oes unrhyw ffynonellau cyllid wedi sicrhau hyd yma. Mae'n bosib y gall cyfran o'r arian ei sicrhau gan Lywodraeth Cymru a Cyngor Sir Gaerfyrddin, fodd bynnag, mae bwlc cyllido yn bodoli ar hyn o bryd. Ystyrir y gallai cyllid ASC gyfrannu tuag at gostau cyflenwi cynlluniau Band B yn ogystal ag unrhyw gwaith cysylltiedig sy'n ofynnol i alluogi cyflawni'r cynlluniau.

Iechyd

2.45 Caiff Gofal Iechyd ei ddarparu yn Sir Gaerfyrddin gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda. Y Bwrdd Iechyd sy'n gyfrifol am ddarparu rhwydwaith o gyfleusterau iechyd ar draws y Sir i ateb gofynion y trigolion yn y dyfodol drwy amrywiaeth o gyfleusterau, yn cynnwys ysbytai cyffredinol a chymunedol, canolfannau iechyd, meddygon teulu a deintyddion, ymysg eraill.

2.46 Er mwyn diwallu gofynion gofal iechyd y trigolion yn y dyfodol, bydd angen i Fwrdd Iechyd Hywel Dda ddatblygu'i gyfleusterau presennol yn ogystal ag ystyried yr angen am gyfleusterau newydd. Cyfrifoldeb y Bwrdd Iechyd yw ariannu'r cyfleusterau hyn ac ni ddisgwylir i ddarpariaeth o'r fath gael ei hariannu drwy ASC.

Gwasanaethau brys

2.47 Mae cyfleusterau gwasanaeth brys yn cael eu darparu gan y cyrff ambiwlans, tân a heddlu perthnasol. O ran gwasanaethau heddlu, mae cynlluniau ar gyfer cyfleusterau newydd yn Sir Gaerfyrddin, fodd bynnag, oherwydd yr amserlen i gyflenwi'r gwaith a mecanweithiau ariannu amgen sydd ar gael, nid oes angen arian ASC ar gyfer darparu cyfleusterau gwasanaethau brys.

Chwaraeon a Hamdden

2.48 Nid yw'r Cyngor o dan ddyletswydd statudol i ddarparu canolfannau chwaraeon a hamdden. Fodd bynnag, mae'n dewis gwneud hynny, yn enwedig gan fod gofyn i ysgolion ddarparu cyfleoedd yng nghyfnod allweddol 2 i blant ddysgu nofio. I helpu i gyflenwi'r gwasanaethau hyn yn effeithlon, mae'r Is-adran Hamdden yn cynhyrchu ei Gynllun Rheoli Asedau Strategol. Mae'r Cynllun yn help i benderfynu ar ddatblygiadau hamdden a chynlluniau ailwampio'r dyfodol a phennu'r flaenoriaeth a roddir iddynt, ac mae'n help i gynllunio gwariant cyfalaf a refeniw'r dyfodol.

2.49 Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu ystod o gyfleusterau yn ei bortffolio ac ystyrir math, ansawdd a dosbarthiad gofodol y cyfleusterau wrth benderfynu ar anghenion a blaenoriaethau'r dyfodol. Caiff y wybodaeth a ddefnyddir gan yr Awdurdod Lleol wrth wneud yr asesiad hwn ei chymryd o Fodel Cynllunio Cyfleusterau Strategol Chwaraeon Cymru, a fydd yn cael ei ddisodli gan gynllun cyfleusterau hamdden newydd i Gymru, 2016, o'r enw 'Fit for the Future'. Mae'r dogfennau hyn yn help i nodi ardaloedd yn y Sir lle mae galw am gyfleusterau o'r fath nad yw'n cael ei ddiwallu, a hynny ar sail y ddarpariaeth bresennol, dwyseddau poblogaeth ac amseroedd gyrru derbyniol. Mae'r wybodaeth yn dangos nad oes unrhyw fylchau ar hyn o bryd o ran cyfleusterau strategol mawr ychwanegol yn Sir Gaerfyrddin. Mae galw am rai cyfleusterau mewn ardaloedd penodol o'r Sir nad yw'n cael ei ddiwallu. Fodd bynnag, nid yw'r galw hwn yn ddigonol ar hyn o bryd i gyfiawnhau buddsoddi i ddatblygu cyfleuster newydd.

2.50 Mae angen sylweddol fodd bynnag i uwchraddio neu ddatblygu cyfleusterau presennol neu ddarparu rhai newydd yn eu lle i sicrhau eu bod yn addas i'w diben ac y gallant ddiwallu'r galw o du poblogaeth y Sir ar hyn o bryd ac i'r dyfodol.

2.51 Mae nifer o ardaloedd wedi'u nodi lle mae angen gwelliannau o'r fath ac amlinellir y rhain yn Nhabl 1. O ystyried natur strategol ddarpariaeth o'r fath a'r angen i gronni cyfraniadau Adran 106 er mwyn gwireddu'r cynlluniau hyn, dylai'r Awdurdod Lleol ystyried defnyddio cyfraniadau ASC i hwyluso'r gwaith o wireddu'r cynlluniau hyn a hefyd i gyfrannu tuag at wella ac uwchraddio cyfleusterau presennol er mwyn diwallu'r galw ychwanegol a gynhyrchir gan ddatblygiadau newydd. Bydd angen i'r Awdurdod ystyried y cynlluniau hyn a nodi'i flaenoriaethau buddsoddi.

Y Celfyddydau a Diwylliant

2.52 Aseswyd y cyfleusterau sy'n cael eu darparu er mwyn ymarfer a chyflwyno celfyddydau perfformio ar draws y Sir ac mae'n dangos fod dosbarthiad gofodol cyfleusterau ar draws y Sir yn anwastad, bod prinder canolfannau canolig eu maint a bod dosbarthiad cyfleusterau sydd â

mynediad i'r anabl yn anwastad. . Mae gan y Sir theatr fawr yng Nghaerfyrddin a datblygiad theatr newydd yn Llanelli (Y Ffwrnes) ac mae theatr fach mewn adeilad sy'n cael ei rannu yn Rhydaman. Mae pob un o'r tair canolfan yn elwa o wasanaeth rhaglennu a marchnata ar y cyd, a reolir fel un gwasanaeth o dan fathodyn Theatrau Sir Gâr.

2.53 Mae gan y Sir hefyd oriel grefftau a stiwdio addysg ranbarthol arbenigol (Oriol Myrddin), ac adnodd oriel a chrefftau yn Sanclêr. Mae Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru a Chartref Dylan Thomas yn darparu proffil Cenedlaethol o ran treftadaeth ddiwylliannol. Yn ychwanegol at hyn, mae'r Sir yn elwa o Amgueddfa'r Sir yn Abergwili, yr Amgueddfa Ddiwydiannol yng Nghydsweli, Amgueddfa Parc Howard a'r Amgueddfa Cyflymder ym Mhentywyn. Mae archifau wedi'u lleoli hefyd ym Mharc Myrddin yng Nghaerfyrddin.

2.54 Mae cynigion ar gyfer gwelliannau yn Amgueddfa Abergwili, Archifau Caerfyrddin, Oriol Myrddin ac Amgueddfa Cyflymder ym Mhentywyn sydd wedi eu hamlinellu yn Nhabl 1. Ystyrir y gallai arian ASC cael ei ddefnyddio i gyfrannu tuag at gostau cyflenwi'r cynlluniau hyn.

Llyfrgelloedd

2.55 Caiff y gwasanaeth llyfrgelloedd ei ddarparu drwy 3 llyfrgell ranbarthol, 15 llyfrgell gymunedol a 4 llyfrgell deithiol sy'n gwasanaethu ardaloedd gwledig a threfol. Mae angen i'r cyfleusterau llyfrgell ateb galwadau cynyddol a chyfnewidiol y defnyddwyr, sy'n cynyddu mewn niferoedd, a hynny yn gorfforol ac yn rhithiol. Mae Cynllun Rheoli Asedau Hamdden Strategol 2015-18 yn amlinellu cynlluniau a blaenoriaethau'r Awdurdod Lleol o ran buddsoddi yn llyfrgelloedd y Sir ac mae'n nodi bod buddsoddiadau'r dyfodol yn debygol o gael eu targedu at ddarparu gwell gwasanaeth teithiol a chydleoli llyfrgelloedd cangen cymunedol llai. Nid oes unrhyw gynigion penodol a nodwyd ar hyn o bryd, fodd bynnag, mae'n bosibl y gallai'r rhain fod yn gymwys i gael arian ASC yn y dyfodol.

Y Gymraeg

2.56 Mae'r Gymraeg yn chwarae rhan bwysig ym mywyd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd trigolion Sir Gaerfyrddin ac ymwelwyr. Gyda 78,048 o siaradwyr Cymraeg ymysg ei phoblogaeth, Sir Gaerfyrddin yw'r sir â'r nifer mwyaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru a chanddi'r gyfran pedwerydd uchaf o siaradwyr Cymraeg ar 43.9% (data Cyfrifiad 2011). Fodd bynnag, yn y cyfnod rhwng Cyfrifiadau 1991 a 2011, gostyngodd canran y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin o 54.9% i 43.9%.

2.57 Mae Llywodraeth Cymru yn gyffredinol o'r farn ac yn cydnabod bod gofyn cael cyfran o 70% o siaradwyr Cymraeg ym mhoblogaeth cymuned er mwyn i'r Gymraeg fod yn iaith bob dydd ym mywyd y gymuned. Mae Sir Gaerfyrddin wedi gweld gostyngiad sylweddol yn nifer y wardiau cymuned sy'n cyrraedd y trothwy 70 y cant hwn ac erbyn 2011 nid oedd unrhyw wardiau cymuned mwyach yn Sir Gaerfyrddin lle'r oedd 70% neu fwy o'r boblogaeth yn gallu'r Gymraeg. Mae hyn yn amlygu gostyngiad yn y defnydd o'r iaith ac mae'n destun pryder i'r Sir.

2.58 Yn sgil cyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 2011 a'r gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin, penderfynodd y Cyngor sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ymchwilio i beth efallai sydd wedi arwain at y dirywiad a beth y gallai'r Cyngor ei wneud i fynd i'r afael â'r materion hyn.

2.59 Comisiynodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ddau ddarn penodol o ymchwil. Y cyntaf oedd adroddiad ystadegol manwl ar gyflwr y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin i helpu'r Gweithgor yn ei drafodaethau ond hefyd i ddarparu sylfaen tystiolaeth i'r Cyngor i'w defnyddio wrth gynllunio'r ddarpariaeth gwasanaethau a gweithgareddau a fwriedir i hyrwyddo'r Gymraeg yn y Sir. Yr ail oedd darn o ymchwil yn ymwneud â Chynllunio a'r Gymraeg a edrychai'n benodol ar ddatblygiadau tai newydd yn y Sir er mwyn canfod unrhyw dueddiadau neu gysylltiadau rhwng datblygu a'r effaith ar yr iaith. Mae prosiectau wedi cael eu nodi yn Nhabl 1 sy'n seiliedig ar argymhellion y Gweithgor a gall arian ASC cael ei ddefnyddio i gyfrannu tuag at eu cyflawni.

Prosiect Droshaen Wi-Fi

2.60 Mae'r prosiect 'troshaen' Wi-Fi arfaethedig ynghyd â phrosiect gwella canol y dref 'arddangosfeydd digidol' yn cael eu hanelu at wella cysylltedd digidol a gwasanaethau digidol i ddiwallu anghenion Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol.

2.61 Mae'r prosiect troshaen Wi-Fi yn gysylltiedig â'r prosiect LEADER sydd wedi'i gynllunio i fanteisio ar dechnoleg ddiigidol a hyrwyddo cynhwysiant digidol, gan greu rhaglen gydlynol a chydgylltiedig yn fewnol ac ar draws cymunedau gwledig.

2.62 Datblygwyd y rhaglen hon o dan y Strategaeth Datblygu Lleol ac argymhellion a wnaed yn yr ymchwil i Gynhwysiant Digidol Gwledig yn Sir Gaerfyrddin (Mehefin 2015) a chanfyddiadau Astudiaeth Tlodi Gwledig Sir Gaerfyrddin (Mehefin 2015). Mae hefyd yn cwrdd â nodau Strategaeth Dinas-Ranbarth Bae Abertawe, yn enwedig creu twf a sgiliau busnes.

Seilwaith Gwyrdd

2.63 Mae ansawdd tirweddau ac amgylchedd naturiol y Sir yn cyfrannu'n sylweddol at hunaniaeth, cymeriad a hynodrwydd y Sir. Mae gwarchod a chyfoethogi'r elfennau hyn yn bwysig yn Strategaeth y CDLI. Mae prosiectau wedi eu hamlinellu yn Nhabl 1 sy'n cynnwys creu a rheoli cynefinoedd ac sy'n anelu at liniaru effaith datblygiad ar yr amgylchedd naturiol. O bwysigrwydd arbennig yw'r prosiect iâr fach yr haf britheg y gors Caeau Mynydd Mawr.

2.64 Sefydlwyd y prosiect yn 2013 i sicrhau y gwneir iawn, yn Ardal Twf Cross Hands, am effaith ecolegol y datblygiad sy'n cael ei gynnig yn y CDLI ar iâr fach yr haf britheg y gors, rhywogaeth sy'n cael ei gwarchod dan gyfraith Ewrop. Mae hyn yn ofynnol er mwyn dangos bod CDLI y Cyngor (yn ei gyfanrwydd) yn cydymffurfio â Rheoliadau Cynefinoedd yr UE. Ariennir y prosiect drwy gyfraniadau gan ddatblygwyr, trwy cytundebau Ad.106, yn cysylltiedig â dtblygiadau yn ardal y prosiect a bydd yn sicrhau cynefin digonol i gynnal yr iâr fach yr haf yn yr ardal hon drwy gytundebau rheoli a phrynu tir.

2.65 Oherwydd maint y prosiect mae angen cronni cyfraniadau ac o ystyried yr angen i gydymffurfio â Rheoliadau Cynefinoedd yr UE dylai'r prosiect hwn gael ei ystyried yn flaenoriaeth am arian ASC.

2.66 Fel rhan o baratoi'r CDLI, mae'r Cyngor wedi ystyried yr angen am gyfleusterau hamdden ffurfiol newydd neu'r angen i wella cyfleusterau, i helpu i ddatblygu'r ardal. Mae'r asesiadau o'r ddarpariaeth Mannau Agored ar hyn o bryd ac i'r dyfodol (yn cynnwys mannau chwarae) wedi'i seilio ar bolisi cynllunio ac ar yr Asesiad Mannau Gwyrdd a gyflawnwyd yn 2009-10 sy'n darparu archwiliad o'r ddarpariaeth ar draws y Sir. Rhydd hyn syniad gofodol o ble mae diffyg darpariaeth neu ormod o ddarpariaeth o bosibl o ran y ddarpariaeth mannau gwyrdd sy'n hygyrch i'r cyhoedd ar draws y Sir.

2.67 I helpu i gyflenwi mannau agored hygyrch, digonol a phriodol, mae'n ofynnol gan yr Awdurdod Lleol fod pob datblygiad tai newydd o 5 neu ragor o gartrefi yn cael ei ystyried yn unol â gofynion polisi REC2 Darpariaeth Mannau Agored a Datblygiadau Newydd. Mae'n ofynnol yn ôl y polisi i ddatblygwyr ddarparu darpariaeth man agored ar y safle, ond mae'n nodi y gallai fod yn fwy priodol, o dan rai amgylchiadau, darparu cyfraniad ariannol i hwyluso darparu neu uwchraddio cyfleusterau yn rhywle arall yn y cyffiniau. O ystyried bod y polisi'n ffafrio darparu man agored ar safle yn hytrach na chyfraniad ariannol, mae'n fwy priodol ariannu darparu mannau agored a pharciau bach drwy rwymedigaethau cynllunio Adran 106 yn hytrach na thrwy ASC. Mae'r Cyngor wrthi ar hyn o bryd yn paratoi canllawiau pellach ar y mater drwy Ganllawiau Cynllunio Atodol ar Y Gofynion Hamdden a Mannau Agored i Ddatblygiadau Newydd.

2.68 Fodd bynnag, mewn achosion lle caiff cynlluniau mawr neu strategol eu cynllunio, mae'n debygol y bydd cyfraniadau datblygwr unigol yn annigonol efallai i ariannu'r gwaith cyflenwi. Mae hynny'n debygol o gynnwys cyfleusterau fel caeau chwarae a chyfleusterau cysylltiol fel ystafelloedd newid, ardaloedd chwaraeon aml-ddefnydd ac ardaloedd chwarae cymdogaeth a chyfarpar arnynt. Lle byddai angen cronni cyfraniadau er mwyn cyflenwi cyfleusterau strategol, efallai y bydd yn briodol i'r Awdurdod Lleol ystyried defnyddio ASC yn hytrach na chyfraniadau Adran 106 yn y dyfodol.

2.69 Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn cynllunio ar gyfer buddsoddi i ddarparu cyfleusterau cefn gwlad. Ymdrinnir â hyn yn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a'r Cynllun Rheoli Asedau Hamdden Strategol. Mae'r Cynlluniau'n ystyried y rhwydwaith hawliau tramwy ar draws y sir a'r berthynas rhyngddynt a chyfleusterau cefn gwlad eraill megis Parciau Gwledig y Sir, parciau coetir, safleoedd picnic etc. Caiff cynlluniau penodol eu hamlinellu yn Nhabl 1. Ni ragwelir y byddai ASC yn ariannu pob un o'r cynlluniau ond y mae'n bosib y gall nifer o'r cynlluniau fod yn gymwys i gael eu hariannu yn rhannol gan ASC.

Argymhellion

3.1 Argymhellir bod y categorïau seilwaith isod yn gymwys i gael cyllid CIL (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) a'u cynnwys yn y rhestr ddrafft Rheoliad 123 a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Rhestr Codi Tâl Ddrafft Ragarweiniol.

Rhestr Seilwaith Ddrafft Rheoliad 123 Sir Gaerfyrddin
Seilwaith Ffisegol:
Prosiectau Trafnidiaeth a Phrifyrdd: <ul style="list-style-type: none">• Ffordd gyswllt Gorllewin Caerfyrddin• Ffordd gyswllt economaidd Cross Hands• Seilwaith adfywio economaidd Rhydaman• Ffordd ddsbarthu Rhydaman, cam 2• Yr A4138 mynediad i Lanelli• Modelu traffig a mynd i'r afael â dwysfannau yn y Sir• Pecyn diogelwch y ffyrdd• Cymorth strategol i wasanaethau bws• Bwcabus• Cryfhau pontydd ac adeiladwaith priffyrdd mewn mannau strategol
Prosiectau Beicio a Cherdded <ul style="list-style-type: none">• Llwybr Beicio Dyffryn Tywi• Seilwaith Strategol Teithio Llesol
Gwelliannau i dir y cyhoedd a chanol trefi
Gwaith datblygu a'r seilwaith cysylltiedig sy'n ofynnol i gyflwyno safleoedd cyflogaeth ar draws y Sir
Seilwaith Cymdeithasol a Chymunedol:
Rhaglen Moderneiddio Addysg Sir Gaerfyrddin a gwaith galluogi cysylltiedig
Cyfleusterau hamdden a chwaraeon strategol Yn cynnwys canolfannau hamdden, caeau chwarae, parciau gwledig ond heb gynnwys ardaloedd chwarae lleol, ardaloedd chwarae lleol â chyfarpar, ardaloedd chwarae cymdogaeth ac ardaloedd chwaraeon aml-ddefnydd.
Amgueddfeydd ac orielau
Prosiectau'r Gymraeg
Prosiect droshaen Wi-Fi
Seilwaith Gwyrdd:
Prosiect cynefin britheg y gors, Caeau Mynydd Mawr
Mae hyn yn angenrheidiol i gydymffurfio â'n cyfrifoldebau o dan Erthygl 6(3) o'r Gyfarwyddeb

Cynefinoedd (Cyfarwyddeb 92/43/EEC y Cyngor)
Prosiect cadw a chynyddu poblogaeth llygoden bengron y dŵr, Llanelli
Cadw a gwella cynefin y dyfrgi yng nghyffiniau Caerfyrddin
Seilwaith gwyrdd strategol a manau agored strategol

Eithriadau o Restr Ddrafft Rheoliad 123

3.2 Bydd y mathau canlynol o seilwaith yn cael eu heithrio o Restr Ddrafft Rheoliad 123 a chânt eu hariannu drwy rwymedigaethau cynllunio Adran 106 lle maent yn bodloni'r profion statudol a nodwyd yn Rheoliad 122 ASC:

- Tai fforddiadwy;
- Mannau agored a darpariaeth chwarae megis Ardaloedd Chwarae Lleol, Ardaloedd Chwarae Lleol â Chyfarpar, Ardaloedd Chwarae Cymdogaeth ac Ardaloedd Chwaraeon Aml-ddefnydd;
- Mesurau lliniaru a chyfoethogi bioamrywiaeth sy'n benodol i safle;
- Gofynion priffyrdd sy'n benodol i safle; a,
- Gofynion seilwaith penodol i safle sy'n angenrheidiol i oresgyn rhwystrau rhag datblygu safle

3.3 Mae'r adran hon yn rhoi rhestr ddangosol o gynlluniau seilwaith, a allai o bosibl gael eu darparu o fewn categorïau'r Rhestr Rheoliad 123 a fyddai hefyd yn cefnogi datblygu yn Sir Gaerfyrddin fel a gynigir yn y CDLI. Fodd bynnag, ni ddylid ei ystyried yn rhestr gynhwysfawr.

3.4 Mae'r rhestr ddrafft yn rhoi disgrifiad byr o'r cynllun, yr asiantau / sefydliadau sy'n debygol o fod yn gyfrifol am ei gyflwyno, y cyfnod cyflenwi, y costau a amcangyfrifir, ffynonellau cyllid a'r bwllch ariannu sy'n parhau.

3.5 Nid yw'n briodol i nodi pa fathau o seilwaith y dylid eu blaenoriaethu i gael eu cyflenwi (ac eithrio'r Prosiect cynefin britheg y gors, Caeau Mynydd Mawr) yn ystod y cam cynnar yma yn y broses. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd angen blaenoriaethu ond bydd hyn yn ddibynnol ar argaeledd ffynonellau a blaenoriaethau ariannu yn y sector cyhoeddus a phreifat.

3.6 Mae'r seilwaith sydd wedi eu cynnwys ar y Rhestr Rheoliad 123 yn dibynnu ar ganlyniad ymgynghoriad cyhoeddus ac amgylchiadau ar adeg yr arholiad. Felly, mae'n bosibl na fyddai prosiectau a nodwyd ar y rhestr yn ystod y cam hwn yn cael eu cynnwys ar y Rhestr Rheoliad 123 a mabwysiadwyd gan y Cyngor. Yn ogystal, mae gan y Cyngor y gallu i wario arian ASC ar gategoriâu o seilwaith sydd heb eu nodi ar hyn o bryd, ar yr amod eu bod yn cael eu hychwanegu at y rhestr Rheoliad 123 yn dilyn proses ymgynghori.

3.7 Mae'r gofynion seilwaith a nodir yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael ac mor gyflawn ag y bo modd. Fodd bynnag, mae rhai bylchau yn y dystiolaeth yn parhau lle nad yw hyn wedi bod ar gael yn rhwydd a rhagwelir y bydd y ddogfen yn cael ei diweddarau a'i fireinio gyda gwybodaeth fwy cadarn. Fel y nodwyd uchod, mae'n debygol y bydd newidiadau i'r rhestr Rheoliad 123 ddrafft a'r rhestr isadeiledd wrth iddo barhau i esblygu nes ei archwiliad.

Tabl 1: Cynlluniau Seilwaith Drafft

Cynllun	Disgrifiad o'r Cynllun	Asiantiaid	Cyfnod Cyflawni	Amcangyfrif o'r Gost (£k)	Cyllid a Sicrhawyd / a Ragwelir	Bwlch Cyllido a Amcangyfrifir
Seilwaith Ffisegol						
Priffyrdd a Thrafnidiaeth						
Ffordd Gyswllt Gorllewin Caerfyrddin	Ffordd gyswllt newydd o ffordd ddeuol yr A40 i Ffordd y Coleg ger Parc Dewi Sant a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, gan alluogi mynediad i safleoedd addysg a chyflogaeth yn ogystal â safle pencadlys newydd S4C. Hefyd bydd y Ffordd Gyswllt yn galluogi ardaloedd preswyl newydd o faint sylweddol i gael eu datblygu yng Ngorllewin Caerfyrddin (Cyf. CDLI GA1/MU1), fel y nodwyd yng Nghyfarwyddyd Cynllunio'r safle yn ogystal â gwella tagfeydd wrth gyffyrdd allweddol.	Cyngor Sir Caerfyrddin	2015 - 2020	7,500	Llywodraeth Cymru Cyfraniadau Datblygwr	0
Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands	Ffordd gerbydau sengl newydd o Heol y Llew Du i'r A476 i'r gogledd-ddwyrain o Ors-las gyda chyffyrdd yn Heol y Llew Du a Heol Penygroes / Heol Norton (gan ffurfio mynediad posibl i'r safle datblygu yng Ngwaith Brics Emlyn (Cyf. CDLI GA3/MU2)). Cam nesaf y Ffordd Gyswllt Economaidd o Heol y Llew Du i'r A476 i'r gogledd-ddwyrain o Ors-las, gan ffurfio mynediad uniongyrchol i Safle Cyflogaeth Strategol Dwyrain Cross Hands (Cyf. CDLI GA3/E7) o'r gogledd-	Cyngor Sir Caerfyrddin	2016 - 2021	15,000	CSC Cyfalaf LIC Cyfanswm – 6,000	9,000

Cynllun	Disgrifiad o'r Cynllun	Asiantiaid	Cyfnod Cyflawni	Amcangyfrif o'r Gost (£k)	Cyllid a Sicrhawyd / a Ragwelir	Bwlch Cyllido a Amcangyfrifir
	ddwyrain a'r dwyrain. Bydd hyn yn helpu i greu tua 1,000 o swyddi.					
Seilwaith Adfywio Economaidd Rhydaman	Trefniadau system gylchu / cyffordd newydd i wella mynediad i'r M4 a phen uchaf Dyffryn Aman ac oddi yno, gyda llai o dagfeydd wrth gyffordd allweddol (Stryd y Gwynt / Lôn Tir-y-dail) yn Rhydaman, sy'n rhan o Ardal Twf Rhydaman / Cross Hands yn y CDLI. Yn amodol ar Weithdrefnau Statudol gan gynnwys cymeradwyaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwelliannau i gyffyrdd a'r potensial cyllido. Byddai amcanion Nod Strategol 5 Strategaeth Economaidd Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn cael eu cyflawni, yn ogystal â Chynllun Busnes Datblygu Economaidd a Phrif Gynllun Canol Tref Rhydaman.	Cyngor Sir Caerfyrddin	2016 - 2019	3,500	CSC Cyfalaf LIC Cyfanswm – 2,225	1,275
Ffordd Ddosbarthu Rhydaman – Cam 2	Astudiaeth Ddichonoldeb a gwerthuso llwybr yn ymwneud â datblygu cam 2 Ffordd Ddosbarthu Rhydaman (Stryd y Parc – Pantyffynnon – Pen-y-banc – Tŷ-croes) ynghyd ag astudiaethau cwmpasu cychwynnol mewn perthynas ag amodau amgylcheddol / ecolegol a chyflwr y tir. Bydd dewis 'Llwybr a Ffeirir' (ar ôl Ymgynghoriad Cyhoeddus) yn arwain wedyn at gyflwyno cais cynllunio.	Cyngor Sir Caerfyrddin	2018 - 2021	775	CSC Cyfalaf LIC Cyfanswm – 350	425
Mynediad ar yr A4138 i Lanelli	Gan Sir Gaerfyrddin y mae'r lefelau traffig 3 ^{ydd} uchaf yng Nghymru gyfan. Mae'r A4138 yn	Cyngor Sir Caerfyrddin	2016 - 2021	1,125	CSC Cyfalaf LIC	950

Cynllun	Disgrifiad o'r Cynllun	Asiantiaid	Cyfnod Cyflawni	Amcangyfrif o'r Gost (£k)	Cyllid a Sicrhawyd / a Ragwelir	Bwlch Cyllido a Amcangyfrifir
	<p>llwybr strategol allweddol ar gyfer cyrraedd a gadael anheddiad trefol ail fwyaf De-orllewin Cymru. Mae problemau capasiti, a thagfeydd o ganlyniad iddynt ar yr adegau prysuraf, yn rhwystr i ddatgloi'n llawn y potensial economaidd sydd gan Lanelli, sy'n Ardal Twf yn y CDLI ac yn Barth Twf allweddol o fewn Dinas-ranbarth Bae Abertawe. Astudiaeth Ddichonoldeb Gychwynnol sy'n ymwneud â gwella mynediad a lleihau amserau teithio o draffordd yr M4 i Lanelli ar hyd yr A4138, er enghraifft trefniant system draffig llanw a thrai, yn cynnwys astudiaeth ochr yn ochr sy'n nodi safle(oedd) posibl ar gyfer cyfleusterau Parcio a Theithio neu Barcio a Rhannu yn ardal ehangach Llanelli. Dylunio pellach a gweithredu'r opsiynau a ffefrir o 2019/20 ymlaen.</p>				Cyfanswm – 175	
Modelu traffig a mynd i'r afael â manau trafferthus yn y Sir	<p>Byddai datblygiadau newydd o ran modelu traffig drwy ddadansoddi data ffôn symudol yn galluogi model Traffig Strategol ar gyfer y sir gyfan i gael ei ddatblygu, a fyddai'n llywio penderfyniadau ynghylch cynllunio defnydd tir a'r goblygiadau/cyfleoedd traffig/trafnidiaeth sy'n gysylltiedig â datblygiadau. Yn ychwanegol at hyn, bydd modelau presennol a modelau'r dyfodol, ynghyd â thystiolaeth empirig, yn ein galluogi i glustnodi nifer o fannau strategol sy'n drafferthus yn y Sir lle</p>	Cyngor Sir Caerfyrddin	2016 - 2021	500	CSC Cyfanswm - 250	250

Cynllun	Disgrifiad o'r Cynllun	Asiantiaid	Cyfnod Cyflawni	Amcangyfrif o'r Gost (£k)	Cyllid a Sicrhawyd / a Ragwelir	Bwlch Cyllido a Amcangyfrifir
	mae tagfeydd yn cael effaith niweidiol ar hyfywedd Economaidd y Sir.					
Pecyn Diogelwch Ffyrdd	Rhaglen ar gyfer y sir gyfan yw hon sy'n cydnabod y ffaith bod gan Sir Gaerfyrddin y lefelau traffig 3 ^{ydd} uchaf yng Nghymru a'r angen i roi sylw i ddiogelwch o gwmpas ysgolion, diogelwch ffyrdd gwledig, defnyddwyr ffyrdd sy'n agored i niwed / sydd mewn perygl.	Cyngor Sir Caerfyrddin	2016 - 2021	2,000	CSC Cyfanswm – 1,000	1,000
Cryfhau Pontydd ac Adeiladwaith Priffyrdd mewn manau strategol	Mae nifer cynyddol o bontydd safon is ac adeileddau priffyrdd sy'n ei gwneud yn ofynnol naill ai monitro rheolaidd neu osod cyfyngiadau pwysau. Mae'n bosib y bydd nifer o'r strwythurau yma ar lwybrau allweddol sy'n effeithio ar ddatblygiad posibl.	Cyngor Sir Caerfyrddin	2016 - 2021	10,000	CSC Cyfanswm – 1,000	9,000
Bwlch Cyllido Priffyrdd a Thrafnidiaeth £21,900,000						
Beicio a Cherdded						
Llwybr Beiciau Dyffryn Tywi	Llwybr Beicio sy'n cysylltu â phrif atyniadau gan gynnwys trefi marchnad Caerfyrddin a Llandeilo, Amgueddfa Abergwili, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Aberglasne, Parc Dinefwr, Castell Dryslwyn, Gelli Aur, a'r ysgol uwchradd newydd yn Ffair-fach. Cysylltiadau posibl â'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol, Canolfan Beicio Mynydd Brechfa, a Rheilffordd Gwili. Mynediad gwell i feicwyr a cherddwyr i brif atyniadau	Cyngor Sir Caerfyrddin	2016 - 2021	5,750	CSC Cyfanswm - 1,050	4,700

Cynllun	Disgrifiad o'r Cynllun	Asiantiaid	Cyfnod Cyflawni	Amcangyfrif o'r Gost (£k)	Cyllid a Sicrhawyd / a Ragwelir	Bwlch Cyllido a Amcangyfrifir
	twristiaeth a chyfleusterau addysgol ym mhen isaf Dyffryn Tywi (Llandeilo – Caerfyrddin), yn ogystal â chreu atyniad newydd i ymwelwyr a gwella mynediad diogel a chynaliadwy rhwng aneddiadau ar hyd y llwybr sy'n gysylltiedig â gwelliannau i'r Coridor Bysiau. Dull gweithredu cam wrth gam.					
Seilwaith Teithio Llesol Strategol	Cysylltiadau cerdded a beicio Sir Gaerfyrddin, yn cynnwys: Rhaglen gysylltiadau Llanelli, llwybrau brandio Caerfyrddin, rhaglen gysylltiadau Rhydaman, Llwybr Beicio Dyffryn Aman, Rhaglen Llwybrau Teithio Llesol Strategol. Bydd y cysylltiadau cerdded a beicio yn gwella mynediad i gyflogaeth, addysg a gwasanaethau eraill, yn ogystal â hybu twristiaeth a ffyrdd iach o fyw. Rhwymedigaeth statudol o ran llwybrau beicio wedi'i chadarnhau yn Neddf Teithio Llesol Llywodraeth Leol.	Cyngor Sir Caerfyrddin	2016 - 2021	2,350	CSC LIC Cyfanswm – 1,050	1,300
Bwlch Cyllido Beicio a Cherdded £6,000,000						
Trafnidiaeth Gyhoeddus						
Cymorth Gwasanaethau Bysiau Strategol	Dal i wneud gwelliannau parhaus i'r prif Goridoriau Bysiau yn Sir Gaerfyrddin gan gynnwys cysgodfannau newydd, mynediad i fysiau llawr isel (cyrbau), ac atebion Gwybodaeth i Deithwyr ar sail TGCh a thrwy hynny helpu â mynediad i wasanaethau a chyflogaeth yn y prif ganolfannau. Yn amodol	Cyngor Sir Caerfyrddin	2018 - 2021	3,500	0	3,500

Cynllun	Disgrifiad o'r Cynllun	Asiantiaid	Cyfnod Cyflawni	Amcangyfrif o'r Gost (£k)	Cyllid a Sicrhawyd / a Ragwelir	Bwlch Cyllido a Amcangyfrifir
	ar gyllid, gwneud gwelliannau i Goridorau Bysiau Caerfyrddin – Abertawe, Llandeilo – Rhydaman – Abertawe, Rhydaman – Cross Hands (yn cynnwys cyfnewidfa newydd yn Cross Hands) a Llanelli – Cross Hands. Ateb ar sail TGCh ar gyfer Coridorau Caerfyrddin – Abertawe a Rhydaman – Abertawe yn unig i ddechrau. Hefyd mae'n cynnwys gwelliannau i'r mynediad i orsafoedd a gwaith gwella cyffredinol yng nghyffiniau gorsafoedd. Ni chynhwysir gwasanaethau gweithredol. Gwella Gorsaf Llanelli i ddarparu gwell mynediad i wasanaethau rheilffordd ar linell Caerfyrddin i Abertawe; potensial ar gyfer Rheilffordd Calon Cymru; safleoedd cyflogaeth o fewn Dinas-ranbarth Bae Abertawe fel rhan o brosiect Parth Twf ehangach Llanelli.					
Bwcabus	Elfen gyfalaf o gyfran arall o gysyniad Bwcabus sy'n gysylltiedig â seilwaith gan gynnwys gwelliannau i arosfannau, systemau gwybodaeth ac ati.	Cyngor Sir Caerfyrddin	2016 - 2020	850	0	850
Bwlch Cyllido Trafnidiaeth Gyhoeddus £4,350,000						
Tir y Cyhoedd a Chanol Trefi						
Ailddatblygu Lôn Jackson	Creu gardd, sgrin fawr, gwelliannau llecynnau cyhoeddus, canolfan fusnes / unedau cychwyn busnes, ciosgau. Cyllid y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig - Mynegiannau o Ddiddordeb wedi'u cyflwyno ar gyfer y cam	Cyngor Sir Caerfyrddin	2017 –2030	1,500	160	1,340

Cynllun	Disgrifiad o'r Cynllun	Asiantiaid	Cyfnod Cyflawni	Amcangyfrif o'r Gost (£k)	Cyllid a Sicrhawyd / a Ragwelir	Bwlch Cyllido a Amcangyfrifir
	cyntaf £160,000 (Cronfa Datblygu Cymunedau Gwledig, CSC).					
Prosiect Parth i Gerddwyr Heol y Brenin	Creu parth i gerddwyr yn Heol y Brenin, i gynnwys bariwns a reolir gan amser, gwelliannau i fannau gollwng nwyddau, gwaith gwella llecynnau cyhoeddus, a chynllun technoleg blaen siop ddigidol. Cyllid wedi'i sicrhau ar gyfer dyluniad manwl.	Cyngor Sir Caerfyrddin	2017 – 2030	1,500	40.879	1,459.121
Arddangosfeydd Digidol	Hysbysfyrddau digidol ar gyfer pob canol tref strategol (6). Mae hyn yn cysylltu gyda chynlluniau datblygu ledled y sir gan gynnwys y Uwchgynllun Tref Caerfyrddin, datblygiad Cross Hands a gwelliannau'r rhanbarthau arfordirol a ragwelir dros y pum mlynedd nesaf. Yn rhaglenadwy i gynnig cyfarwyddiadau amser real i hyrwyddiadau. Gallai'r arddangosfeydd wella gweithgarwch megis llwybrau twristiaeth, a chysylltu'r rhain ar draws trefi a phentrefi'r Sir.	Cyngor Sir Caerfyrddin	2018-20	85	LEADER Amcangyfrifir y bydd 35	50
Prosiect Diogelu ac Adfywio'r Arfordir Harbwr Porth Tywyn	Yn ymestyn o Harbwr Porth Tywyn hyd at Lithrfa'r Dwyrain a'r tu hwnt tuag at gerflunwaith pridd Parc Arfordirol y Mileniwm: i gynnwys datblygu cynllun promenâd deubwrpas newydd, a chynllun llecynnau cyhoeddus i ategu'r cynllun i adfywio'r harbwr trwy ddeunydd cymysg arfaethedig.	Cyngor Sir Caerfyrddin	2017 – 2020	2,500	1,875	625

Cynllun	Disgrifiad o'r Cynllun	Asiantiaid	Cyfnod Cyflawni	Amcangyfrif o'r Gost (£k)	Cyllid a Sicrhawyd / a Ragwelir	Bwlch Cyllido a Amcangyfrifir
Bwlch Cyllido Tir y Cyhoedd a Chanol Trefi £3,474,121						
Datblygu Economaidd ac Adfywio						
Glan yr Afon a Phorth Pen-sarn	Y prosiect i gynnwys creu eco-farina, llwybr glan yr afon a symbol eiconig wrth y porth – costau i gynnwys caffael tir.	Cyngor Sir Caerfyrddin	2017 –2030	5,000	I'w gadarnhau	5,000
Datblygiad Masnachol Cei Caerfyrddin	Y prosiect i gynnwys caffael a gwaredu adeiladau allweddol i'w hailddatblygu ar gyfer defnydd masnachol, hamdden a phreswyl. Diffyg o ran yr elfen llecynnau cyhoeddus.	Cyngor Sir Caerfyrddin	2017 – 2030	15,000	12,500	2,500
Pibwr-lwyd	Parc Technoleg a Chyfyngau Digidol – Caffael Tir a Seilwaith Safle Cyflogaeth yn cynnwys yr A48 – Prosiect Seilwaith Ffordd Pibwr-lwyd (cyf. CDLI GA1/MU2).	Cyngor Sir Caerfyrddin	2017 –2030	15,000	I'w gadarnhau	15,000
Atyniad Ymwelwyr Rhyngwladol Pentwyn	Datblygu cyfleuster atyniad ymwelwyr rhyngwladol i gynnwys gwelliannau i'r Amgueddfa Cyflymder gyda Llety i Aros Dros Nos, Man Arddangos, Oriel, Ystafell Ddosbarth, Gerddi Amgueddfa, lle i gynnal digwyddiad awyr agored, eco-hostel a safle i gartrefi modur aros dros nos, creu eco-wersyllfa ar lan y môr, cynllun atal llifogydd a maes parcio mwy o faint.	Cyngor Sir Caerfyrddin	2016 – 2020	14,750	11,750	3,000
Cronfa Datblygu Eiddo Masnachol ar gyfer	Cronfa grantiau trydydd parti newydd a fydd yn golygu y gellir caffael a datblygu adeiladau a safleoedd strategol allweddol i gyflwyno	Cyngor Sir Caerfyrddin	2016 – 2018	6,600	6,600	0

Cynllun	Disgrifiad o'r Cynllun	Asiantiaid	Cyfnod Cyflawni	Amcangyfrif o'r Gost (£k)	Cyllid a Sicrhawyd / a Ragwelir	Bwlch Cyllido a Amcangyfrifir
Trawsnewid	cyfleoedd masnachol yn y dyfodol sy'n rhoi bod i swyddi newydd a thwf economaidd (hefyd ledled y sir). Sicrhawyd cyllid hyd at Fawrth 18. Angen £3 miliwn i'w ymestyn hyd at Fawrth 2020.		2018 – 2020	6,600	3,600	3,000
Y Gronfa ar gyfer Mentrau Gwledig	Cronfa trydydd parti newydd gwerth £2 filiwn. Bydd y grant yn rhoi cymorth i berchenfeddianwyr, datblygwyr a pherchenogion busnes ddatblygu safleoedd newydd a gwella rhai presennol. Sicrhawyd cyllid hyd at Fawrth 18. Angen £2 filiwn i'w ymestyn hyd at Fawrth 2020.	Cyngor Sir Caerfyrddin	2016 – 2018	4,000	4,000	0
			2018 – 2020	4,000	2,000	2,000
Dwyrain Cross Hands: (Safle Cyflogaeth Strategol Cam 1 – Llain 1)	Prosiect hunanadeiladu unedau cychwyn busnes yn darparu cyfuniad o unedau – 15,000 troedfedd sgwâr.	Cyngor Sir Caerfyrddin	2016 – 2019	2,000	1,000	1,000
Dwyrain Cross Hands: Prosiect Seilwaith (Cam 2)	Bydd ail gam (seilwaith) y gwaith ar y safle cyflogaeth strategol newydd yn rhyddhau 10 hectar arall o dir yn cynnwys 3 llwyfandir datblygu mawr. Bydd y safle yn darparu'r seilwaith angenrheidiol i greu amgylchedd masnachol o ansawdd da er mwyn creu cyfleoedd sylweddol o ran swyddi.	Cyngor Sir Caerfyrddin	2016 – 2020	6,000	6,000	0
Llynnoedd Delta, Parc Gwyddor	Creu Parth Mentrau Iechyd a Lles yn cynnwys datblygiadau a gwasanaethau sy'n bodloni	Cyngor Sir Caerfyrddin	2016 – 2022	80,000	42,000	38,000

Cynllun	Disgrifiad o'r Cynllun	Asiantiaid	Cyfnod Cyflawni	Amcangyfrif o'r Gost (£k)	Cyllid a Sicrhawyd / a Ragwelir	Bwlch Cyllido a Amcangyfrifir
Bywyd, ac Academi Iechyd a Lles	dyheadau'r tri sefydliad. Mae'r cynigion yn hynod arwyddocaol yng nghyd-destun Dinas-ranbarth Bae Abertawe ac, yn dilyn ymarfer cwmpasu cychwynnol gan bartneriaid allweddol, bydd yn cynnwys mentrau a chyfleusterau megis academi iechyd a lles, cyfleuster hamdden, busnes a mentrau, hwb sgiliau, twristiaeth gwesty/iechyd, darparu gofal sylfaenol, a TGCh ddigidol.					
Prif Gynllun Penrhyn Pen-bre	Nod y prosiect hwn yw creu prif gynllun ar gyfer Penrhyn Pen-bre gyda chynllun cyflawni ategol. Mae Pen-bre yn ardal fawr sy'n cynnwys tir sydd heb ei ddatblygu ac sydd heb ei ddefnyddio i'w botensial llawn hyd yn hyn. Yn amodol ar ganfyddiadau'r prif gynllun/astudiaeth ddichonoldeb – seilwaith i greu/darparu ar gyfer buddsoddiad a diddordeb gan y sector preifat. Darpariaethau seilwaith draeniau posibl yn cynnwys gorsafoedd pwmpio newydd a gwaith cysylltiedig. Gwella'r gwaith trin presennol. Gwelliannau i briffyrdd a darparu cyfleustodau i gynyddu'r capasiti presennol. Gwaith ar diroedd a pharatoi'r safle.	Cyngor Sir Caerfyrddin	2017 – 2030	2,600	1,100	1,500
Bwlch Cyllido Datblygu Economaidd ac Adfywio £71,000,000						

Seilwaith Cymdeithasol a Chymunedol						
Ysgolion						
Y Rhaglen Moderneiddio Addysg	Prif bwrpas y prosiect yw gwedddnewid y rhwydwaith o ysgolion meithrin, cynradd ac ysgolion uwchradd sy'n gwasanaethu'r Sir i fod yn adnodd strategol ac yn weithredol effeithiol sy'n diwallu anghenion y presennol a'r dyfodol ar gyfer addysg sy'n seiliedig ar ysgolion a'r gymuned. Bwriad y prosiect yw datblygu a gwella adeiladau, seilwaith a manau sydd wedi eu lleoli, dylunio, eu hadeiladu neu eu haddasu'n briodol.	Cyngor Sir Caerfyrddin	2019-2024	150,000	I'w gadarnhau	150,000
Bwlch Cyllido Ysgolion £150,000,000						
Chwaraeon a Hamdden						
Mannau Agored Strategol	Cysylltiadau a datblygu safleoedd.	Cyngor Sir Caerfyrddin	2016 - 2021	800	400 CSC	400
Parc Gwledig Pen-bre	Gwelliannau i seilwaith Parc Gwledig Pen-bre. Byddai hyn yn cynnwys gwelliannau pellach i'r ganolfan ymwelwyr, gwelliannau i adeilad y bwyty, a darparu blociau cawodydd a thoiledau parhaol ychwanegol ar gyfer y safle carafanau a gwersylla yn y Parc.	Cyngor Sir Caerfyrddin	2016 - 2021	2,000	250 CSC	1,750
Canolfan Hamdden Llanelli	Cyfleuster newydd yn lle'r cyfleuster canolfan hamdden bresennol yn Llanelli. Bydd hyn o bosibl yn gysylltiedig â'r cyfleuster iechyd a lles Llynnoedd Delta.	Cyngor Sir Caerfyrddin	2016 - 2021	16,500	12,000 CSC	4,500
Canolfan	Creu stiwdio ddawns newydd. Mae'r gwaith	Cyngor Sir	2016 - 2021	750	0	750

Hamdden Dyffryn Aman	yn debygol o gynnwys estyniad y tu cefn i'r pwll presennol wedi'i gysylltu â'r ystafell ffitrwydd. Er nad oes cyllid wedi cael ei sicrhau, rhagwelir y gallai'r cynllun gael ei gyllido'n rhannol drwy arian grant at ddibenion datblygu.	Caerfyrddin				
Felodrom Parc Caerfyrddin	Byddai'r prosiect yn cynnwys gosod wyneb newydd ar y parc yn ei gyfanrwydd a gosod ffens ddiogelwch. Mae'r Parc yn eiddo i'r Awdurdod Lleol, yn cael ei reoli gan Gyngor Tref Caerfyrddin, ac yn cael ei ddefnyddio'n helaeth gan Glwb Beicio Tywi Riders. Mae aelodaeth y clwb wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd. Mae £296,000 wedi'i glustnodi o gyllid gwaddol y Gemau Olympaidd drwy Chwaraeon Cymru. Mae'r cais yn cael ei gefnogi gan Feicio Cymru sy'n awyddus i sefydlu'r trac fel cyfleuster hwb rhanbarthol a chanolfan ar gyfer rasio cenedlaethol a rhanbarthol, a fyddai'n dod â llawer o ymwelwyr ychwanegol i'r ardal.	Cyngor Sir Caerfyrddin	2016 - 2021	582	Chwaraeon Cymru CSC Cyfanswm - 582	0
Llwybr beicio cylch cyfyng	Cyfleuster oddi-ar-y-ffordd dan lifoleuadau at ddibenion hyfforddiant a chystadlu ar gyfer beiciau BMX, ffordd a mynydd. Lleoliad i'w gadarnhau.	Cyngor Sir Caerfyrddin	2016 - 2021	500	500 CSC	0
Harbwr Porth Tywyn	Adfywio o'r Harbwr i gynnwys datrysiad carthu cynaliadwy, cronni o Ddoc y Dwyrain i greu llyn hamdden a buddsoddiad seilwaith ar gyfer defnyddwyr yr harbwr e.e. toiledau / bloc cawod; offer codi cwch	Cyngor Sir Caerfyrddin	2016 - 2021	2,500	400 CSC	2,100

Canolfan Hamdden Caerfyrddin	Cam 2 y cynlluniau adnewyddu. Fel y nodwyd yn y cynlluniau gwreiddiol ar gyfer adnewyddu, byddai'r gwaith yn cynnwys ymestyn y neuadd chwaraeon presennol i greu neuadd ddwbl. Hefyd byddai'r cynllun yn cynnwys adnewyddu'r hen dderbynfa yn y cyfleuster presennol, ac, o bosibl datblygu Canolfan Tennis dan do gerllaw neu ar y cyrtiau awyr agored sy'n bodoli.	Cyngor Sir Caerfyrddin	2016 - 2021	1,800	0	1,800
Bwlch Cyllido Chwaraeon a Hamdden £11,300,000						
Cymuned a Diwylliant						
Amgueddfa Abergwili / Porth Tywi	Mae'r cynllun yn cynnwys gwaith i diroedd Amgueddfa Abergwili a Phwll yr Esgob. Mae'r cynllun hwn yn y rhaglen gyfalaf eisoes, fodd bynnag, mae angen gwaith ychwanegol i adfer adeilad yr Amgueddfa yn llawn er mwyn cwblhau'r cynllun.	Cyngor Sir Caerfyrddin	2016 - 2021	2,500	500 CSC	2,000
Archifau Caerfyrddin	Mae Safon Brydeinig bresennol 5454, a gymeradwywyd gan yr Archifau Gwladol, yn nodi amodau amgylcheddol penodol ar gyfer y dogfennau a gedwir gan archifau cyhoeddus. Yn ôl adroddiad diweddar gan yr Archifau Gwladol, nid yw'r amgylchedd presennol yn yr archifau'n cyrraedd y safon honno. Bwriad y cynllun arfaethedig yw symud yr archifau i gefn llyfrgell Caerfyrddin.	Cyngor Sir Caerfyrddin	2016 - 2021	2,000	2,000 CSC	0
Oriel Myrddin	Ailddatblygu'r oriel. Cynllun yn edrych i wella mynediad a chynhwysedd i'r Oriel, gan dynnu i lawr arian grant gan y Cyngor Celfyddydau Cymru.	Cyngor Sir Caerfyrddin	2016 - 2021	1,750	250 CSC O bosib CCC	1,500

Prosiect Droshaen Wi-Fi	Bydd y rhaglen hon yn ychwanegu swyddogaethau ychwanegol ar gyfer y rhwydweithiau Wi-Fi a ragwelir ar gyfer trefi marchnad strategol ar draws Sir Gaerfyrddin, gan adeiladu ar gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer band eang cyflym iawn ac yn unol â chynllunio Rhanbarth Dinas Bae Abertawe.	Cyngor Sir Gaerfyrddin	2018-20	150	LEADER i'w gadarnhau	I'w gadarnhau
Bwlch Cyllido Cymuned a Diwylliant £3,500,000						
Yr Iaith Gymraeg						
Pecyn Croeso i Sir Gaerfyrddin	Bydd pecyn croeso ar gael i'r rheiny sy'n symud i Sir Gaerfyrddin. Bydd y pecyn yn darparu gwybodaeth am wasanaethau Cymraeg, cyfleoedd cymdeithasol a digwyddiadau.	Mentrau Iaith yn Sir Gaerfyrddin	2017-18	5	0	5
Prosiect Magu Hyder	Nod y prosiect yw cynyddu hyder ymysg y rheiny sy'n gallu siarad Cymraeg, ond yn gyffredinol nad oes ganddynt yr hyder i ddefnyddio eu sgiliau.	Cyngor Sir Gaerfyrddin	2017-18	9.99	0	9.99
Bwlch Cyllido Prosiectau'r Iaith Gymraeg £14,990						
Seilwaith Gwyrdd						
Amgylchedd Naturiol						
Prosiect Brithegion y Gors Caeau'r Mynydd Mawr	Diogelu a rheoli cynefin er mwyn lliniaru effaith datblygu ar gynefin Brithegion y Gors yn Ardal Twf Cynllun Datblygu Lleol Cross Hands. Mae hyn yn ofynnol er mwyn sicrhau	Cyngor Sir Gaerfyrddin	2016-2021	660	0	660

	cydymffurfiaeth â Rheoliadau Cynefinoedd yr UE.					
Prosiect Llygod Pengrwn y Dŵr Llanelli	Bydd y prosiect yn ceisio gwarchod a chynyddu'r boblogaeth llygod pengrwn y dŵr a'r cynefin sy'n ei chynnal yn ardal Llanelli.	Cyngor Sir Caerfyrddin a Phartneriaid y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Leol	2016-2021	30	0	30
Prosiect Dyfrgwn Caerfyrddin	Bydd y prosiect yn ceisio gwarchod a gwella'r cynefinoedd ar lannau afonydd yng Nghaerfyrddin a'r cyffiniau y gwyddys eu bod yn cynnal dyfrgwn - sy'n nodwedd o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Dyffryn Tywi a Chaerfyrddin a'r Aberoedd - ac sy'n rhywogaeth a ddiogelir gan ddeddfwriaeth yr UE.	CSC a Phartneriaid y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Leol	2016-2021	35	0	35
Rhaglen Gwella Hawliau Tramwy	Uwchraddio a gwelliannau i'r rhwydwaith llwybrau tramwy. Mae'r cynlluniau gwella yn cynhyrchu incwm twristiaeth sylweddol i'r economi leol e.e. Llwybr Arfordir Cymru, a theithiau cerdded a rhwydweithiau llwybrau strategol ar draws y Sir.	Cyngor Sir Caerfyrddin	2016 - 2021	500	250 CSC	250
Rhaglen Cryfhau Pontydd Hawliau Tramwy	Uwchraddio a gwelliannau i'r pontydd ar draws y rhwydwaith llwybrau tramwy. Mae'r cynlluniau gwella yn cynhyrchu incwm twristiaeth sylweddol i'r economi leol e.e. Pont d'Agan; Pont Beicio Lougher; Pont y Brenin dros yr Afon Tywi yn Llandeilo; Pontydd dros lwybr beicio Dyffryn Aman.	Cyngor Sir Caerfyrddin	2016 - 2019	900	450 CSC	450

Bwlch Cyllido Amgylchedd Naturiol £1,425,000

Cyfanswm y Bwlch Ariannu a Amcangyfrifir £272,964,111
--